

Arolygiad o Ysbyty (Dirybudd)

Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg /

Uned dan Arweiniad

Bydwragedd, Bwrdd Iechyd

Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad arolygu: 3 – 4 Rhagfyr
2019

Dyddiad cyhoeddi: 5 Mawrth 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	6
2.	Crynodeb o'n harolygiad	7
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	18
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	24
4.	Beth nesaf?	29
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai	30
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	31
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	32
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	39

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 3 a 4 Tachwedd 2019. Ymwelwyd â'r ardal ganlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Uned dan Arweiniad Bydwagedd

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, dau adolygwr cymheiriaid bydwagedd ac un adolygwr lleeg.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom fod y gwasanaeth yn darparu gofal i'r cleifion mewn ffordd barchus ac urddasol.

Fodd bynnag, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol bob amser ac yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y menywod a'u teuluoedd yn gadarnhaol am eu gofal a'u triniaeth
- Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion a'r ymwelwyr mewn ffordd broffesiynol ond gwrtais a chyfeillgar
- Mae dosbarthiadau cyn geni rheolaidd ar gael
- Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw i safon uchel
- Roedd y cleifion yn gallu cael gafael ar iechyd meddwl amenedigol da.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cadw cofnod cyson o'r archwiliadau tymheredd ar gyfer storio meddyginiaethau a chyffuriau a reolir
- Archwilio cyfarpar dadebru ar gyfer babanod newydd-anedig
- Argaeledd gwybodaeth am roi'r gorau i smygu
- Hyfforddiant i'r staff ar wagio pwll geni.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty Llwynhelyg wedi'i leoli yn Hwlfordd yn Sir Benfro, ac mae'n rhan o'r gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y bwrdd iechyd). Mae'r bwrdd iechyd yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i boblogaeth o tua 384,000 ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'n darparu gwasanaethau aciwt, cymunedol, iechyd meddwl ac anabledau dysgu.

Yr ysbytai mwyaf yn y bwrdd iechyd yw Ysbyty Cyffredinol Bronglais, Ysbyty Cyffredinol Glangwili ac Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg. Mae'r bwrdd iechyd yn rhedeg 12 o ysbytai eraill llai.

Cynigir gwasanaethau mamolaeth i bob un o'r cleifion a'u teuluoedd sy'n byw o fewn ffin ddaearyddol y bwrdd iechyd. Mae'r gwasanaethau mamolaeth hefyd yn darparu gofal i gleifion sy'n dewis rhoi genedigaeth yng nghyfleusterau'r bwrdd iechyd sy'n byw y tu allan i'r ffin ddaearyddol.

Ceir tua 3,100 o enedigaethau yn y bwrdd iechyd bob blwyddyn ar gyfartaledd, gyda thua 140 o'r rhain yn digwydd naill ai yn yr uned dan arweiniad bydwagedd yn Ysbyty Llwynhelyg, neu yn y cartref yn ardal Sir Benfro.

Caiff menywod sy'n rhoi genedigaeth yn y bwrdd iechyd ddewis o blith pedwar lleoliad geni. Mae'r rhain yn cynnwys geni yn y cartref, uned bydwreigiaeth annibynnol yn Ysbyty Llwynhelyg, uned gyfochrog dan arweiniad bydwagedd ac uned obstetreg yn Ysbyty Glangwili ac Ysbyty Bronglais. Mae'r uned obstetreg ar gael i bob lleoliad gofal yn ystod genedigaeth dan arweiniad bydwagedd pan fydd cymhlethdodau wrth esgor.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom y staff yn siarad â chleifion ac ymwelwyr mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar.

Rhoddwyd gwybodaeth i gleifion am eu dewisiadau geni, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal.

Roedd yr amgylchedd yn lân, yn daclus ac yn groesawgar i gleifion, partneriaid ac ymwelwyr.

Roedd yr ystafelloedd geni yn cynnwys adnoddau digonol i gefnogi dewisiadau unigol a bodloni dewisiadau'r cleifion o ran geni.

Roedd angen gwneud gwelliannau i leoliad ac argaeledd gwybodaeth hybu iechyd.

Gwelsom hefyd fod angen gwneud gwelliannau o ran darparu gwybodaeth yn Gymraeg ac eglurder y wybodaeth am y trefniadau i drosglwyddo claf ar frys o'r uned a oedd wedi'i chynnwys mewn taflen ar benderfyniadau ynghylch geni.

Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un claf yn yr uned a oedd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar. Felly, gwnaethom ddsbarthu holiaduron i gleifion yn yr uned a oedd yn mynychu apwyntiadau cynnedigol er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau a ddarparwyd. Cwblhawyd cyfanswm o chwe holiadur. Gwnaethom hefyd ffonio cleifion a oedd wedi geni eu baban yn yr uned yn ddiweddar, er mwyn cael eu barn.

Yn gyffredinol, dywedodd y cleifion y cawsom sgwrs â nhw a'r rhai a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael gofal a thriniaeth wych. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Lle ymlaciol a hyfryd i eni baban. Ces i fy nau o blant yma, a gofal ardderchog bob tro."

"Amgylchedd ymlaciol hyfryd. Bob amser yn cael croeso cynnes. Rwy'n dwlu ar ystafell y pwl geni a'r holl gymhorthion ymlacio sydd ar gael."

"Mae pob bydwraig yn ardderchog. Mae'n drueni bod y cyfleusterau ar gyfer gofal pellach yn gyfyngedig."

Cadw'n iach

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos. Roedd y wybodaeth yn cynnwys ymwybyddiaeth o feningitis, colli pwysau a bwyta'n iach. Gwelsom hefyd wybodaeth am glinigau bwydo ar y fron a oedd ar gael yn yr ardal leol. Roedd y wybodaeth hon i'w gweld wrth ddesg y dderbynfa. Fodd bynnag, roedd cleifion yn cael eu tywys yn syth i ardal aros fach ar ôl cyrraedd yr uned, ac ni fyddent o bosibl yn gweld y wybodaeth hon. Gwnaethom gynghori y dylai'r wybodaeth i gleifion gael ei darparu yn yr ardal aros er mwyn galluogi'r cleifion i ddarllen y deunydd wrth aros am eu hapwyntiadau.

Gwelsom fanylion ymarferydd rhoi'r gorau i smygu yn yr uned. Gwelsom fod cyngor ar roi'r gorau i smygu yn cael ei roi yn ystod apwyntiadau cynenedigol yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth am roi'r gorau i smygu ar gael i gleifion. Byddai'r wybodaeth hon yn hybu iechyd y cleifion yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl hynny.

Roedd hysbyswrdd wedi'i leoli ar wal y coridor yn yr uned. Roedd y bwrdd yn cynnwys hen wybodaeth am amseroedd trosglwyddo o'r uned i ysbyty Glangwili. Gwnaethom gynghori y byddai arddangos gwybodaeth hybu iechyd, er enghraifft gwybodaeth am fwydo ar y fron a rhoi'r gorau i smygu, yn ddefnydd gwell o'r hysbyswrdd.

Gwelsom lechen ar y wal yn datgan bod yr uned wedi cael ei hachredu gan UNICEF¹ ym mis Tachwedd 2018 am fod yn gyfeillgar i fabanod. Caiff yr achrediad ei adolygu bob tair blynedd, sy'n cadarnhau cydymffurfiaeth yr uned â hyn.

¹ <https://.unicef.org.uk/babyfriendly/> – Mae'r Fenter Cyfeillgar i Fabanod yn trawsnewid gofal iechyd i fabanod, eu mamau a theuluoedd yn y DU fel rhan o bartneriaeth fyd-eang ehangach rhwng Sefydliad Iechyd y Byd ac Unicef.

Dyweddod y staff wrthym eu bod wedi'u hyfforddi i ddarparu cymorth ar gyfer bwydo ar y fron a bod bydwagedd cymunedol a gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cynnig cymorth ychwanegol i gleifion yn eu cartrefi eu hunain yn dilyn genedigaeth eu baban.

Dyweddwyd wrthym fod dosbarthiadau cyn geni yn cael eu cynnal yn yr uned. Roedd y rhain yn cynnwys dosbarthiadau arddangos er mwyn dangos i gleifion sut i roi bath i'w baban a'i fwydo â photel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion mewn man lle y gallant ei gweld yn hawdd, gan gynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu.

Gofal ag urddas

Fel y nodwyd yn gynt, ar adeg yr arolygiad, nifer bach iawn o gleifion a oedd yn yr uned. Fodd bynnag, gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion a'r ymwelwyr a oedd yn bresennol mewn modd cwrtais a chyfeillgar. Roedd sylwadau gan gleifion yn cael eu harddangos yn ymyl y grisiau wrth brif fynedfa'r uned. Roedd y cleifion yn canu clodydd y gofal a roddwyd. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais ac yn gwrandao arnyn nhw, eu ffrindiau a'u teulu.

Roedd yr amgylchedd yn sicrhau bod modd rhoi gofal mewn ffordd urddasol. Roedd tair ystafell eni yn yr uned, ac roedd gan bob un ei hystafell ymolchi breifat ei hun. Roedd pob ystafell eni wedi'i haddurno mewn ffordd gartrefol, ac roedd un ohonynt yn cynnwys pwll geni. Roedd y cyfarpar meddygol yn cael ei storio y tu ôl i lenni er mwyn i'r ystafelloedd deimlo'n llai clinigol ac yn fwy cartrefol.

Roedd pob ystafell eni yn yr uned yn breifat, gan olygu y gallai partneriaid geni neu aelodau eraill o'r teulu fod yn bresennol cyn, yn ystod, ac ar ôl yr enedigaeth. Dywedodd y bydwagedd wrthym fod cleifion yn cael eu hannog i fynd adref o fewn chwe awr ar ôl rhoi genedigaeth.

Gwelsom fod y drysau'n cael eu cau yn ystod apwyntiadau cynenedigol er mwyn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas cleifion a'u partneriaid yn cael eu cynnal.

Dywedwyd wrthym fod yr uned yn gofalu am gleifion yr ystyrir eu bod yn risg isel. Byddai cleifion yn cael eu trosglwyddo i uned obstetreg pe bai unrhyw arwydd o risg i'r fam neu'r baban.

Roedd cymorth arbenigol ar gael i'r uned gan fydwraig profedigaeth. Ei rôl hi yw cefnogi menywod sy'n colli baban yn ystod beichiogrwydd ac atgyfeirio cleifion at gwngselwyr profedigaeth.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y bydwagedd wedi gofyn iddi sut roeddent yn teimlo ac yn ymdopi'n emosiynol yn ystod y cyfnod cynenedigol. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr hefyd yn cytuno bod y bydwagedd wedi siarad â nhw am y newidiadau emosiynol y gallent eu profi ar ôl rhoi genedigaeth.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod cyfarwyddiadau i'r uned yn cael eu harddangos yn glir ym mhob rhan o'r ysbyty, gan olygu bod cleifion yn gallu dod o hyd iddi yn hawdd.

Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth yn yr uned ar gael yn Saesneg, gydag ychydig o wybodaeth yn Gymraeg.

Roedd y staff y cawsom sgwrs â nhw yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu yn y bwrdd iechyd a sut y gellid cael gafael ar y rhain er mwyn cefnogi'r cleifion hynny nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf o bosibl. Roedd bydwagedd Cymraeg eu hiaith hefyd ar gael. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael cynnig yr opsiwn o gyfathrebu â'r staff yn eu dewis iaith.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn annog cleifion i ddod i'w hapwyntiadau cofrestru cychwynnol yn yr uned. Roedd hyn yn galluogi'r cleifion i gael trosolwg o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a oedd ar gael yn yr uned, ac yn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal a'u man geni.

Ar 2 Rhagfyr 2019, cyflwynwyd model gwasanaeth newydd yn yr uned. Roedd hyn yn golygu nad oedd bydwraig yn bresennol yn yr uned 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, mwyach. Mae bydwagedd cymunedol yn defnyddio'r uned i ddarparu gwasanaethau gofal cynenedigol ac ôl-enedigol rhwng 9am a 5am o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae Bydwagedd Cymunedol ar alwad y tu allan i oriau gwaith arferol er mwyn cefnogi cleifion ar esgor sy'n dewis cael eu baban yn yr uned, ac maent yn cael eu galw i'r uned pan fydd angen. Gwelsom daflen a roddir i gleifion er mwyn rhoi gwybod iddynt sut i gael gafael ar wasanaethau yn yr uned, naill ai pan fydd angen iddynt gysylltu â'u tîm bydwreigiaeth gymunedol, neu pan fydd eu cyfnod esgor yn dechrau. Roedd hon yn sicrhau

bod cleifion yn ymwybodol o'r newidiadau ac yn eu galluogi i gael gafael ar fydwraig pan fyddai angen.

Gwelsom daflen ar benderfynu ar fan geni, a oedd yn rhoi gwybodaeth i gleifion a'u partneriaid am gynllunio ble i roi genedigaeth o fewn ardal y bwrdd iechyd. Mae'r daflen yn cyfeirio at ddarpariaeth cerbyd ambiwlans dynodedig os bydd angen trosglwyddo claf ar frys o'r uned i uned obstetreg. Roeddem o'r farn y gallai'r gair 'dynodedig' fod yn gamarweiniol i gleifion oherwydd gallent gredu mai dim ond er mwyn trosglwyddo cleifion ar frys o'r uned y byddai'r cerbyd hwn yn cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, mae'r cerbyd hwn hefyd ar gael i drosglwyddo cleifion pediatrig, obstetreg a gynaeoleg. Pe na bai'r cerbyd ar gael, byddai'r claf yn cael ei drosglwyddo drwy alwad 999 brys i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru. Gwnaethom gynghori y dylai'r daflen adlewyrchu'r trefniadau hyn yn glir er mwyn sicrhau bod gan gleifion ddealltwriaeth lawn o'r gwasanaethau sydd ar gael a'u galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu dewis man geni.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn ddwyieithog ym mhob rhan o'r uned.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom sgysiau rhwng y staff a'r cleifion yn yr uned. Gwelsom fod y staff yn groesawgar ac yn wybodus yn eu sgysiau â'r cleifion.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom fod cynlluniau geni clir wedi cael eu dogfennu ynddynt. Gwelsom hefyd dystiolaeth o drafodaethau clir am asesiadau risg wrth bennu a oedd cleifion yn rhai risg isel ac yn addas i roi genedigaeth yn yr uned. Roedd hyn yn cynnwys y cleifion hynny a oedd o bosibl y tu allan i'r llwybr esgor arferol fel arfer, ond a oedd yn awyddus i gael eu baban yn yr uned. Yn y sampl o gofnodion cleifion gwelsom enghraifft o fam feichiog yr oedd ei Mynegai Mas y Corff (BMI)² uwchlaw'r hyn a ystyriwyd yn

² Mesur sy'n defnyddio taldra a phwysau i gyfrifo a yw pwysau unigolyn yn iach

ystodau normal, a chafwyd trafodaethau â hi er mwyn rhoi'r wybodaeth berthnasol i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus. Gwelsom ei bod wedi cael asesiad risg priodol o ran ei haddasrwydd i roi genedigaeth yn yr uned. Cawsom sicrwydd bod y broses o asesu risg cleifion yn adlewyrchiad cadarnhaol o nifer isel y cleifion a oedd yn cael eu trosglwyddo o'r uned i uned obstetreg.

Dywedwyd wrthym hefyd fod tudalen Facebook wedi cael ei chreu fel bod modd cyfathrebu â mamau newydd a rhannu profiadau ac adborth.

Gofal amserol

Gwelsom fod proses glir ar waith i gleifion ar esgor er mwyn sicrhau bod bydwaig gymunedol yn cael ei galw naill ai i gyfeiriad cartref y claf, neu i'r uned, yn dibynnu ar y dewis man geni. Fel y disgrifiwyd yn gynharach, roedd model gwasanaeth newydd wedi cael ei gyflwyno yn ddiweddar ar adeg yr arolygiad. Dywedwyd wrthym fod un baban wedi cael ei eni yn yr uned dros nos ac na fu unrhyw oedi o ran trefnu i fydwaig ddod i'r uned. Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym y byddai'r model gwasanaeth newydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod cleifion bob amser yn cael gofal amserol.

Fel y nodwyd yn gynharach, roedd prosesau ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod cleifion yn cael eu trosglwyddo i uned obstetreg mewn modd amserol. Os bydd angen trosglwyddo claf ar frys, defnyddir y cerbyd ambiwlans dynodedig pan fydd ar gael, neu fel arall, trosglwyddir y claf drwy wneud galwad brys i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru. Gwelsom ddogfennaeth yn yr uned a oedd yn manylu ar amseroedd trosglwyddo o'r uned i'r uned obstetreg. Cawsom sicrwydd bod cleifion yn cael eu trosglwyddo mewn modd amserol.

Cawsom sgwrs â'r staff am y cerbyd ambiwlans dynodedig. Dywedodd y staff wrthym fod y cerbyd weithiau wedi cael ei ddefnyddio i ymateb i alwadau a oedd y tu hwnt i'r cytundeb rhwng Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru a'r bwrdd iechyd. Roedd hyn yn golygu na fyddai'r cerbyd wedi bod ar gael i'r uned pe bai angen trosglwyddo cleifion ar frys. Gwnaethom argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ystyried a yw'r cerbyd ambiwlans dynodedig yn cael ei ddefnyddio'n briodol yn unol â'r cytundeb.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried effaith trefniadau i drosglwyddo cleifion yn ddi-oed, gan gynnwys a yw'r cerbyd ambiwlans dynodedig yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn unol â'r cytundeb rhwng Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru a'r bwrdd iechyd.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd yr uned wedi'i lleoli ar lawr cyntaf yr ysbyty, ac roedd modd ei chyrraedd drwy ddringo'r grisiau i ardal y dderbynfa. Roedd lifftiau hefyd ar gael ym mhob rhan o'r prif ysbyty.

Roedd yr amgylchedd yn lân, yn agored ac yn hawdd ei llywio, gyda choridorau eang a mawr ac ystafelloedd geni taclus.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn dangos bod trafodaethau'n cael eu cynnal â chleifion yn ystod eu hapwyntiadau cynenedigol 36 wythnos ynglŷn â'r bwriad i'w rhyddhau o'r uned o fewn chwe awr ar ôl iddynt roi genedigaeth. Byddai hyn yn sicrhau bod cleifion yn gwbl ymwybodol mai dim ond am gyfnod byr y byddent yn yr uned. Dywedodd y staff wrthym fod cymorth ychwanegol ar gael i gleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r uned, a hynny gan fydwragedd cymunedol yng nghartref y claf.

Hawliau pobl

Dywedwyd wrthym fod trafodaethau'n cael eu cynnal yn ystod yr apwyntiadau cofrestru cychwynnol a thrwy gydol y beichiogrwydd er mwyn hyrwyddo'r opsiynau geni sydd ar gael i gleifion a rhoi gwybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus. Roedd hyn hefyd yn amlwg yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom.

Dywedodd y staff wrthym y gallai cleifion ddewis cael partner/gofalwr yn bresennol yn ystod yr enedigaeth. Roedd digon o adnoddau ym mhob un o'r ystafelloedd geni i gefnogi dewisiadau unigol a bodloni dewisiadau geni'r cleifion. Roedd un o'r ystafelloedd geni yn cynnwys pwll geni wedi'i blymio y gallai cleifion ei ddefnyddio wrth esgor.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Dyweddodd y staff a'r rheolwyr wrthym y byddent yn ceisio ymdrin ag unrhyw broblemau wrth lygad y ffynnon, gyda'r nod o'u datrys yn gyflym. Roedd taflenni dwyieithog am weithdrefn Gweithio i Wella y GIG³ yn cael eu harddangos yn ardal derbynfa'r uned, er mwyn i gleifion eu dilyn pe bai ganddynt bryderon am eu gofal.

Roedd poster yn darparu manylion y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC)⁴ yn cael ei arddangos ar gefn y prif ddrws allanfa. Gall y CIC ddarparu eiriolaeth a chymorth i gleifion wrth fynegi pryder am eu gofal.

Roedd gwybodaeth gan dîm y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) hefyd ar gael. Ei rôl yw sicrhau bod pwyslais ar gael barn am y gofal a'r gwasanaethau a ddarperir. Gwelsom fod adborth yn cael ei gasglu gan gleifion drwy gardiau adborth, a oedd ar gael wrth ddesg y dderbynfa. Roedd cardiau wedi'u cwblhau yn cael eu harddangos wrth ymyl y grisiau sy'n arwain at fynedfa'r uned, a oedd yn cynnwys negeseuon gan gleifion am y gofal a'r cymorth a gafwyd gan y staff.

Gwnaethom hefyd ddsbarthu holiaduron i staff yr uned er mwyn cael gwybod am yr amodau gwaith a chasglu eu barn am safon y gofal. Cawsom hefyd ymatebion i'r holiadur drwy ein harolwg ar-lein. Daeth 11 o holiaduron wedi'u cwblhau i law.

Dyweddodd tua hanner y staff a gwblhaodd holiadur fod yr uned yn casglu adborth gan gleifion, ond dywedodd y mwyafrif ohonynt nad oeddent yn cael diweddariadau ar yr adborth. Roedd traean o'r ymatebwyr yn cytuno bod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau yn yr adran.

³ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>

⁴ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/hafan>

Cynhaliwyd ein harolygiad yn ystod wythnos gyntaf y model gwasanaeth newydd. Felly, roedd yn rhy gynnar i unrhyw adborth fod wedi dod i law gan gleifion am y model newydd. Rhoddodd yr uwch-reolwyr sicrwydd i ni y byddai'r holl adborth yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac y byddai safbwyntiau'r cleifion yn cael eu hystyried.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir rhannu adborth gan gleifion â'r staff er mwyn eu helpu i ddysgu a gwella'r gwasanaeth.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Nid oedd archwiliadau o dymereddau'r oergell na chyffuriau a reolir bob amser yn cael eu cynnal yn unol â'r polisi.

Ni chawsom sicrwydd bod pob aelod gofynnol o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar wagio pwll geni.

Roedd cleifion yr oedd angen eu trosglwyddo i'r uned obstetreg yn cael eu nodi'n gynnar.

Roedd trefniadau da ar waith yn y gwasanaeth o ran gweithdrefnau diogelu, gan gynnwys darparu hyfforddiant i'r staff.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod yr uned yn lân ac yn daclus, ac nad oedd unrhyw annibendod na rhwystrau. Roedd pob rhan o'r uned yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod babanod yn ddiogel ar y wardiau.

Gwnaethom ystyried diogelwch menywod sy'n defnyddio'r pwll geni ac ni chawsom sicrwydd bod yr holl staff gofynnol wedi cwblhau'r hyfforddiant ar wagio pwll geni. Roedd hyn yn golygu bod risg, pe bai claf yn llewygu neu'n mynd yn sâl, neu pe bai argyfwng, na fyddai'r staff wedi cael yr hyfforddiant perthnasol i sicrhau diogelwch y cleifion wrth ddefnyddio'r pwll geni. Mae'n destun siom bod AGIC wedi codi'r mater hwn yn ystod dau arolygiad blaenorol mewn unedau mamolaeth o fewn y bwrdd iechyd. Cawsom sicrwydd gan yr uwch-reolwyr fod rhaglen hyfforddi wedi cael ei rhoi ar waith yn y bwrdd iechyd ac y byddai aelodau perthnasol o staff yr uned yn cael yr hyfforddiant yn fuan. Cafodd hyn hefyd ei gadarnhau gan y bwrdd iechyd mewn cynlluniau gwella a ddarparwyd i AGIC yn dilyn y ddau arolygiad blaenorol. Bydd AGIC yn mynd ar drywydd hyn er mwyn sicrhau bod y staff wedi cael yr hyfforddiant priodol. Dywedodd y staff wrthym hefyd y bydd bydwagedd newydd eu penodi hefyd yn

cael yr hyfforddiant fel rhan o'u proses sefydlu, ac y bydd yn rhan o hyfforddiant gorfodol blynyddol bydwagedd.

Atal briwiau pwysu a niwed i feinweoedd

Gwnaethom ystyried a oedd asesiadau risg mewn perthynas â briwiau pwysu yn cael eu cwblhau ar gyfer cleifion pan fo hynny'n briodol. Dywedodd y staff wrthym y bydd bwndel gofal croen yn cynnwys gofal briwiau pwysu yn cael ei gyflwyno yn y dogfennau newydd ar gyfer cofnodion cleifion, er nad hynny yw'r arfer presennol. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn adran 'cadw cofnodion' yr adroddiad hwn.

Atal a rheoli heintiau

Gwelodd y tîm arolygu fod pob rhan o'r uned yn drefnus, yn rhydd rhag annibendod, ac yn lân ac yn daclus. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y ward yn lân ac yn daclus.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael ym mhob rhan o'r uned. Ni fu modd i ni weld cyfarpar diogelu personol yn cael ei ddefnyddio yn ystod yr arolygiad hwn gan oedd unrhyw gleifion yn yr uned. Gwelsom fod pob aelod o'r staff yn cynnal y safonau o ran bod yn Noeth o dan y Penelin⁵, a gwelsom dechnegau hylendid da yn cael eu defnyddio. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael, ynghyd â phosteri a oedd yn dangos y weithdrefn gywir ar gyfer golchi dwylo. Roedd gel hylendid dwylo ar gael ym mhob rhan o'r uned. Gwelsom hefyd dystiolaeth i ddangos bod archwiliadau hylendid dwylo rheolaidd yn cael eu cynnal, a bod y cyfraddau cydymffurfio yn uchel.

Gwelsom fod haparchwiliadau misol yn cael eu cynnal yn yr uned er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnal safonau rheoli heintiau. Fodd bynnag, gwelsom fod anghysondebau o ran amllder yr archwiliadau hyn. Disgrifiodd y staff broses newydd, a oedd wedi cael ei chyflwyno ers i'r model gwasanaeth newydd gael ei roi ar waith yn yr uned. Bydd y broses hon sicrhau bod yr archwiliadau'n cael eu cynnal yn fisol er mwyn cynnal safonau rheoli heintiau.

⁵ Yr arfer gorau yw bod y staff sy'n ymwneud â gofal y cleifion yn uniongyrchol yn noeth o dan y penelin. Mae hyn yn cynnwys gwisgo dillad â llewys byr, peidio â gwisgo gemwaith (ar wahân i fodrwy briodas blaen), watshis, paent ewinedd nac ewinedd ffug.

Gwelsom lefel uchel o gydymffurfiaeth â hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau ymhlith y staff.

Roedd prosesau glanhau cadarn ar waith ar gyfer y pwll geni, gan gynnwys adegau pan nad oedd y pwll wedi cael ei ddefnyddio. Roedd hyn yn sicrhau bod y pwll geni'n cael ei lanhau'n briodol a'i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom gofnodion i ddangos bod y pwll geni'n cael ei lanhau bob dydd, yn ogystal ag ar ôl ei ddefnyddio.

Maeth a hydradu

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ystyried y ffordd yr oedd anghenion maeth cleifion yn cael eu diwallu yn ystod y dydd a'r nos.

Dywedodd y staff wrthym fod bwyd poeth ar gael gan wasanaethau arlwyo'r ysbty yn ystod amseroedd bwyd, a bod cleifion yn gallu dewis yr hyn yr oeddent am ei fwyta. Mae yna hefyd stoc o fyrbrydau oer ar gael i gleifion.

Gwelsom hefyd fod cegin fach ar gael i gleifion a'u partneriaid ei defnyddio, gan eu galluogi i wneud byrbrydau a diodydd poeth fel y mynnent. Roedd cyfleusterau te a choffi hefyd ar gael yn yr ystafelloedd geni.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer storio a rhoi meddyginiaethau yn yr uned. Gwelsom fod y drws i'r storfa a oedd yn cynnwys meddyginiaethau a reolir heb ei chloi ar un achlysur ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad. Er bod y cypyrddau meddyginiaeth yn y storfa wedi'u cloi, gwelsom fod meddyginiaethau hefyd yn cael eu storio mewn oergell heb ei gloi a bod hylifau ar gael yn hawdd ar droli yn yr ystafell. Gallai hyn beryglu diogelwch cleifion ac ymwelwyr oherwydd y risg o fynediad anawdurdodedig at feddyginiaethau. Codwyd y mater hwn ar adeg yr arolygiad a chafodd ei unioni ar unwaith drwy gloi'r drws. Cawsom sicrwydd gan y staff y byddai'n cael ei gadw dan glo ac mai dim ond gydag allwedd y byddai modd ei agor.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer storio a rhoi meddyginiaethau yn yr uned. Gwelsom anghysondebau ym mhob rhan o'r uned o ran yr archwiliadau dyddiol a oedd yn cael eu cynnal o dymheredd yr oergell storio meddyginiaeth. Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod unrhyw anghysondebau o ran tymereddau yn cael eu nodi a'u huwchgyfeirio. Gwelsom hefyd fod anghysondebau o ran yr archwiliadau dyddiol a oedd yn cael eu cynnal o'r cyffuriau a reolir yn yr uned. Aethpwyd i'r afael â'n pryderon ynglŷn â'r mater uchod o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod drws y storfa sy'n cynnwys meddyginiaethau a reolir dan glo yn barhaus er mwyn atal unrhyw fynediad anawdurdodedig.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i hybu a diogelu lles plant ac oedolion a oedd yn wynebu risg neu'n agored i niwed. Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur ei fod wedi cael hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno cronfa ddata diogelwch mamolaeth yn ddiweddar. Roedd hyn yn galluogi'r staff i gael gafael yn hawdd ar gofnodion cleifion y gallai fod pryderon am eu diogelwch ar draws y bwrdd iechyd. Roedd hefyd yn galluogi bydwagedd i ddiweddarau cofnodion cleifion lle bo angen.

Hefyd, gwelsom dystiolaeth o arfer da yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd materion diogelu wedi cael eu huwchgyfeirio a'u cofnodi drwy'r sianeli priodol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer archwilio'r cyfarpar brys ym mhob rhan o'r uned. Gwelsom nad oedd yr archwiliadau o'r cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio mewn argyfwng gyda chlaf yn ddigonol, am nad oedd cofnod eu bod yn cael eu cynnal bob dydd. Nodwyd hyn gennym mewn perthynas â chyfarpar dadebru ar gyfer babanod newydd-anedig a chyfarpar dadebru brys mewn ystafell eni ac mewn swyddfa yn yr uned. Gwnaethom godi hyn ar unwaith ag aelodau o'r uwch-dîm rheoli a gadarnhaodd y dylid cynnal yr archwiliadau hyn bob dydd. Aethpwyd i'r afael â'n pryderon ynglŷn â'r mater uchod o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Gwelsom fod digon o gyfarpar perthnasol yn y ganolfan eni, a dywedodd y staff nad oedd unrhyw broblemau. Roedd y cyfarpar yn cael ei storio'n ddiogel yn y ganolfan eni, gan sicrhau na fyddai cyfarpar diangen yn cael ei adael o gwmpas fel rhwystr.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn, cyflwynwyd model gwasanaeth newydd ar 2 Rhagfyr 2019. Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod buddiannau'r model gwasanaeth newydd yn cynnwys cynnydd yn nifer y bydwagedd cymunedol a gwell parhad gofal i gleifion. O ystyried nifer bach y genedigaethau yn yr uned, roeddem o'r farn bod y newid yn ddefnydd gwell a mwy effeithiol o amser y staff.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn dangos bod cleifion yr oedd angen eu trosglwyddo i'r uned obstetreg yn cael eu nodi'n gynnar. Gwelsom fod trosglwyddiadau'n cael eu trefnu'n gyflym a bod yr amseroedd trosglwyddo yn rhesymol.

Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod bydwraig wedi aros gyda nhw yn ystod y cyfnod esgor a bod y feddyginiaeth lleddfu poen a gawsant yn ystod y cyfnod esgor yn ddigonol. Roedd pob un o'r ymatebwyr hefyd o'r farn eu bod nhw a'u partner wedi cael digon o gymorth gan y staff i'w helpu i ymdopi â phoen esgor. Hefyd, roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn dangos bod meddyginiaeth lleddfu poen briodol wedi cael ei rhoi mewn modd amserol.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Gwelsom fod y fydwraig ymgynghorol wedi datblygu mentrau da, a bod clinigau dewisiadau geni wedi cael eu cyflwyno. Roedd y rhain yn rhoi cyfle i fenywod ystyried eu dewisiadau geni ac yn rhoi gwybodaeth wedi'i theilwra iddynt mewn ffordd gytbwys a dealladwy.

Ar hyn o bryd, mae nyrs iechyd meddwl amenedigol yn helpu i ddarparu cymorth ar gyfer iechyd meddwl amenedigol. Dywedwyd wrthym fod mesurau hefyd ar waith i recriwtio bydwraig iechyd meddwl amenedigol er budd yr unedau mamolaeth ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd. Byddai hyn yn sicrhau bod cymorth iechyd meddwl ar gael i gleifion yn ystod beichiogrwydd, y cyfnod esgor, genedigaeth a'r cyfnod ôl-enedigol. Hefyd, roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn dangos bod cleifion yn cael eu hatgyfeirio'n briodol at y nyrs iechyd meddwl. Caiff cleifion eu gwahodd i fynychu apwyntiadau gyda'r nyrs iechyd amenedigol mewn ystafell ddynodedig y tu allan i'r uned yn yr ysbyty.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei rheoli a'i storio'n ddiogel ym mhob rhan o'r uned er mwyn sicrhau cyfrinachedd y cleifion ac atal mynediad anawdurdodedig. Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinetau dan glo.

Roedd y fewnwyd yn llawn gwybodaeth, ac yn cynnwys amrywiaeth o bolisiâu a chanllawiau clinigol yn ymwneud â bydwreigiaeth a materion meddygol i'r staff. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd y wybodaeth hon i gyd yn gyfredol a bod angen ei hadolygu. Cawsom sgwrs â'r uwch-reolwyr, a ddywedodd fod yr holl bolisiâu a chanllawiau wrthi'n cael eu hadolygu ac y byddai'r broses wedi'i chwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019.

Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion y cleifion yn yr uned. At ei gilydd, gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu cadw i safon uchel. Gwelsom eu bod yn hawdd eu deall, yn glir i'w dilyn ac wedi'u hysgrifennu yn y fan a'r lle.

Gwelsom fod tystiolaeth dda yn cael ei dogfennu o'r trafodaethau a gafwyd ynghylch dewisiadau geni cleifion. Roedd y wybodaeth yn cynnwys risgiau a buddiannau eu dewisiadau geni.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn dangos bod meini prawf llym iawn yn cael eu cymhwyso o ran asesiadau risg i nodi cleifion yr ystyriwyd eu bod yn wynebu risg isel ac felly'n briodol i roi genedigaeth yn yr uned. O ganlyniad, gwelsom fod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar nifer isel y cleifion a oedd yn cael eu trosglwyddo i uned obstetreg.

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno llyfrynnau mamolaeth newydd i gleifion yn ddiweddar, a oedd yn cynnwys llyfrynnau ar wahân ar gyfer cofnodion cleifion mewnol cynenedigol, bwndel gofal croen, ysgogi'r cyfnod esgor a gofal ôl-enedigol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu.

Caiff cylchlythyr rheoli risg mamolaeth ei lunio bob mis, sy'n adnodd cyfathrebu da o ran cyfleu gwybodaeth i staff mewn unedau mamolaeth ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.

Gwelsom y gellid gwneud gwelliannau o ran cyfathrebu â'r staff, er mwyn gwella morâl y staff.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod gan y bwrdd iechyd fydwraig arweiniol benodol ar gyfer risg glinigol a llywodraethu. Hi oedd yn gyfrifol am ymchwilio i ddigwyddiadau clinigol, eu hadolygu a'u rheoli ym mhob un o'r tair uned mamolaeth yn ardal y bwrdd iechyd. Roedd gwybodaeth yn ymwneud â digwyddiadau clinigol, ymchwiliadau a'u canfyddiadau yn cael ei rhannu mewn amrywiaeth o gyfarfodydd. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheoli risg, fforymau ward esgor a chyfarfodydd misol i drafod ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion. Yn ogystal â hyn, roedd cyfarfodydd rheolwyr a chyfarfodydd bydwragedd band 7 yn cael eu cynnal bob wythnos.

Roedd cylchlythyr rheoli risg mamolaeth yn cael ei lunio bob mis, a oedd yn cynnwys canfyddiadau allweddol o'r ymchwiliadau a'r adolygiadau a gynhaliwyd ac yn cyfleu unrhyw themâu a thueddiadau i'r staff. Dywedodd y staff wrthym fod themâu a thueddiadau hefyd yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd y tîm cymunedol. Roedd gwybodaeth nad oedd yn benodol i'r uned yn cael ei rhannu â phob rhan o'r bwrdd iechyd, gan olygu bod y staff yn cael y cyfle i ddysgu gwersi o leoliadau gwahanol. Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod y cylchlythyr yn cael ei arddangos i'r staff ar hysbysfyrdau, a bod arweinwyr tîm hefyd yn anfon copi ohono drwy e-bost at bob aelod o'r staff.

Gwelsom fod rhifyn ychwanegol o'r cylchlythyr rheoli risg mamolaeth wedi cael ei gynhyrchu yn dilyn arolygiad blaenorol gan AGIC o uned mamolaeth arall o fewn y bwrdd iechyd. Roedd yn galonogol gweld bod canfyddiadau arolygiad AGIC wedi cael eu rhannu'n brydlon â'r staff ym mhob un o unedau mamolaeth y bwrdd iechyd er mwyn tynnu sylw at y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Er bod hyn yn gadarnhaol, fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad, roeddem yn siomedig bod AGIC wedi codi'r un materion uniongyrchol o ran gwella mewn arolygiadau blaenorol.

Roedd yr uned yn defnyddio dangosfwrdd mamolaeth, sef adnodd electronig i fonitro perfformiad clinigol ei gwasanaethau a'r ffordd y cânt eu llywodraethu. Cawsom sicrwydd bod gweithgareddau clinigol a chanlyniadau cleifion yn cael eu goruchwyllo'n dda. Roedd y dangosfwrdd yn darparu gwybodaeth am weithgarwch clinigol yn yr uned, a oedd yn cynnwys nifer a chategori'r genedigaethau (gweiniol, toriad cesaraidd, â chymorth), nifer y genedigaethau cartref, a hefyd ddangosyddion clinigol megis derbyniadau gofal dwys, trallwysyadau gwaed, derbyniadau babanod newydd-anedig ac afiachusrwydd babanod newydd-anedig. Roedd y dangosfwrdd yn cael ei osod yn goch, yn felyn neu'n wyrdd yn dibynnu ar lefel y risg a oedd yn gysylltiedig â'r niferoedd a'r ffigurau. Roedd yn cael ei ddiweddarau bob mis a'i drafod yn fforwm y ward esgor a'r cyfarfodydd ansawdd, diogelwch a phrofiad y cleifion. Roedd gwybodaeth o'r dangosfwrdd hefyd yn cael ei rhannu â'r staff drwy'r cylchlythyr rheoli risg misol.

Cawsom sgwrs â'r staff a ddisgrifiodd y broses ar gyfer cofnodi digwyddiadau ar system cofnodi digwyddiadau'r bwrdd iechyd. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i roi gwybod am ddigwyddiadau difrifol, ond dywedodd rhai ohonynt nad oeddent bob amser yn cael adborth ar y gwersi a ddysgwyd yn dilyn hynny. Roedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiaduron yn cytuno bod y sefydliad yn annog y staff i roi gwybod am ddigwyddiadau a digwyddiadau a fu bron â digwydd. Roedd tua hanner yr ymatebwyr yn cytuno bod y sefydliad yn trin digwyddiadau o'r fath y rhoddwyd gwybod amdanynt yn gyfrinachol. Dywedodd tua chwarter yr ymatebwyr fod y sefydliad yn rhoi'r bai ar bobl sy'n gysylltiedig â chamgymeriadau neu gamgymeriadau a fu bron â digwydd, ac yn eu cosbi amdanynt. O ystyried y sylwadau hyn gan y staff, mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried y materion a godwyd yn y maes hwn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried diwylliant a dysgu mewn perthynas â digwyddiadau, gan gynnwys sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â'r staff mewn amgylchedd agored nad yw'n cosbi.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Cawsom sgwrs â'r staff yn yr uned, a roddodd eu barn ar y model gwasanaeth newydd. Ar y cyfan, roedd y staff y cawsom sgwrs â nhw yn negyddol iawn, ac yn anfodlon ar y newid. Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym fod y penderfyniad i newid wedi cael ei wneud cyn ymgynghori â'r staff, ac nad oeddent yn teimlo bod eu safbwyntiau wedi cael eu hystyried. Hefyd, dywedodd un aelod o'r staff y byddai'r model gwasanaeth newydd yn cael effaith negyddol ar eu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Fodd bynnag, dywedodd aelod arall o'r staff wrthym fod y newid yn anochel oherwydd nifer bach y genedigaethau yn yr uned, a hithau'n dal i gael ei staffio gan fydwrraig 24 awr y dydd. Teimlai fod y newid yn gyfle da i fydwragedd geisio cynyddu nifer y menywod yn yr uned, a chynyddu'r gyfradd genedigaethau. Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod ymgynghoriad ffurfiol â'r staff wedi cael ei gynnal, yn unol â pholisi newid sefydliadol y GIG. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn cadarnhau hyn. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r pryderon a fynegwyd gan staff, gwnaethom argymhell y dylai'r uwch-reolwyr barhau i ymgysylltu â'r staff ynghylch y mater hwn er mwyn gwella morâl y staff.

Braidd yn gymysg oedd yr adborth a gafwyd gan y staff a gwblhaodd ein holiaduron ynghylch cyfathrebu â'r uwch-reolwyr. Dywedodd traean o'r staff fod y cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr â'r staff yn effeithiol, a dywedodd traean ohonynt nad oedd y cyfathrebu'n effeithiol. Dywedodd hanner yr ymatebwyr fod eu rheolwr bob amser neu fel arfer yn eu hannog i weithio fel tîm, a dywedodd un ohonynt nad oedd ei reolwr byth yn gwneud hynny.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod yr uned yn cydymffurfio â Birthrate Plus⁶, a bod y model gwasanaeth newydd yn gweithredu gyda mwy o fydwragedd ar ddyletswydd neu ar alwad nag a argymhellir. Dywedodd y mwyafrif o'r staff y cawsom sgwrs â nhw fod pedair bydwraig ar alwad yn ystod y nos yn ddigon,

⁶ Adnodd cynllunio i fydwragedd yw Birth-rate Plus, ac fe'i defnyddir i gynnal asesiad cynhwysfawr o'r lefelau staffio sydd eu hangen i ddarparu'r gofal sydd ei angen ar fenyw mewn gwasanaethau mamolaeth.

ond dywedodd un aelod o'r staff nad oedd hynny'n ddigon yn ei farn ef. Eglurodd yr uwch-reolwyr ei bod yn rhy gynnar asesu a oedd y lefelau staffio'n briodol ar gyfer y model gwasanaeth newydd, ac y byddai hyn yn cael ei fonitro a'i asesu'n barhaus.

Edrychodd y tîm arolygu ar y dogfennau portffolio hyfforddiant unigol a roddwyd i fydwragedd. Roedd y rhain yn dogfennu'r hyfforddiant gorfodol y mae'n ofynnol i fydwragedd ei gwblhau, ac yn eu cyfeirio at y cyfleoedd dysgu ychwanegol a oedd ar gael. Mae'r gwasanaeth yn cynnal tri diwrnod astudio gorfodol sy'n gysylltiedig â mamolaeth yn ystod y flwyddyn. Mae un o'r diwrnodau hyn yn cynnwys Hyfforddiant Obstetreg ac Amlbroffesiynol Ymarferol (PROMPT), sef digwyddiad hyfforddi amlddisgyblaethol a ddefnyddir i annog gwaith amlddisgyblaethol mewn sefyllfaoedd brys. Gwnaethom edrych ar gynnwys y ffolderi ym mhob un o'r ystafelloedd geni, a oedd yn cynnwys canllawiau PROMPT i'w defnyddio gan fydwragedd pe bai argyfwng yn ystod genedigaeth. Er ein bod o'r farn bod cynnwys y canllawiau o ansawdd uchel, roedd yn ymwneud yn gyffredinol â gofal obstetreg. Gwnaethom argymhell y dylid symleiddio cynnwys y ffolderi, yn enwedig ar gyfer gofal yn yr uned.

Cawsom sgwrs â bydwraig datblygu ymarfer y bwrdd iechyd, a ddywedodd wrthym y bydd sesiwn hyfforddi hanner diwrnod ar argyfyngau'n cael ei chynnal ar gyfer y tîm bydwreigiaeth cymunedol. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys sut i reoli argyfyngau yn yr uned ac mewn lleoliad cymunedol.

Ymhlith y diwrnodau astudio gorfodol eraill roedd hyfforddiant diogelwch tân, diogelu oedolion, triniaeth cynnal bywyd sylfaenol i famau a dadebru babanod newydd-anedig, ymhlith pynciau eraill. Hefyd, gwelsom ei bod yn ofynnol i'r staff gwblhau cyrsiau e-ddysgu gorfodol, a oedd yn cynnwys atal a rheoli heintiau a diogelu.

Dangoswyd ffigurau cydymffurfiaeth ar gyfer hyfforddiant gorfodol, a chawsom sicrwydd bod hyfforddiant rheolaidd yn cael ei gynnal. Roedd cydymffurfiaeth yn cael ei monitro'n ganolog drwy gofnod staff electronig. Mae'r staff yn cael negeseuon i roi gwybod iddynt pan fydd eu hyfforddiant yn dod i ben er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni terfynau amser. Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur fod yr hyfforddiant bob amser neu fel arfer yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol, a dywedodd bron pob un ohonynt ei fod yn eu helpu i roi profiad gwell i'r claf. Dywedodd pob un ohonynt fod yr hyfforddiant yn eu helpu i gadw'n ymwybodol o'r gofynion proffesiynol diweddaraf. Fodd bynnag, dywedodd un aelod o'r staff wrthym nad oedd yn cael amser i gwblhau'r hyfforddiant e-ddysgu a bod yn rhaid iddo ei gwblhau yn ei amser ei hun.

Dyweddod yr uwch-reolwyr wrthym yr arferai'r staff gael dogfen dadansoddi anghenion hyfforddi i'w chwblhau cyn i'r model gwasanaeth newydd gael ei gyflwyno. Roedd hon yn rhoi'r cyfle i fydwagedd nodi unrhyw hyfforddiant ychwanegol yr oedd ei angen arnynt wrth symud o weithio yn yr uned i weithio mewn lleoliad cymunedol a sicrhau gwasanaeth diogel. Hefyd, gwelsom ddogfennaeth a oedd yn cefnogi'r hyfforddiant ychwanegol a gynigir. Dywedodd un aelod o'r staff y cawsom sgwrs ag ef wrthym nad oedd neb wedi gofyn iddo am ei anghenion hyfforddi er mwyn ei gefnogi wrth newid rôl.

Dyweddod y rhan fwyaf o'r staff y cawsom sgwrs â nhw eu bod wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf, a dywedodd tua hanner ohonynt fod eu hanghenion hyfforddi wedi cael eu nodi. Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr fod eu rheolwr wedi eu helpu i gael hyfforddiant.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Ystyried effeithiolrwydd y cyfathrebu â'r staff, gan gynnwys ynghylch y newid yn y gwasanaeth a sut i fynd i'r afael â morâl y staff.
- Sicrhau bod cynnwys ffolderi canllaw PROMPT yn cael ei deilwra'n benodol i'r gofal yn yr uned a bod hyfforddiant PROMPT yn y dyfodol yn berthnasol i'r gwasanaeth newydd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwyd arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Ysbyty: Ysbyty Llwynhelyg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Ward/adran: Uned dan Arweiniad Bydwagedd

Dyddiad arolygu: 3 – 4 Rhagfyr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i wneud y canlynol:</p> <p>Sicrhau bod y cyfarpar dadebru ar gyfer babanod newydd-anedig a'r cyfarpar dadebru brys yn cael eu harchwilio bob dydd ac yn unol â'r polisi, a bod yr archwiliadau hynny'n cael eu cofnodi.</p>	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Bydd y Fydwraig Arweiniol Weithredol Gymunedol yn cael archwiliadau sicrwydd wythnosol gan reolwyr cymunedol er mwyn monitro cydymffurfiaeth o ran archwilio cyfarpar.	Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod	Rhagfyr 2019 – Cwblhawyd
	2.9 Dyfeisiau Meddygol, Offer a Systemau Diagnostig	Y Fydwraig Ymgynghorol i gynnal archwiliad sicrwydd misol er mwyn sicrhau bod gwaith craffu allanol yn cael ei wneud.	Bydwraig Ymgynghorol	Rhagfyr 2019 – Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio ar dymereddau priodol a bod archwiliadau rheolaidd o dymheredd yr oergell meddyginiaethau yn cael eu cynnal yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.</p>	<p>2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p>	<p>Atgoffa'r staff am bwysigrwydd archwilio cyfarpar yn gyson, a'r gofynion o ran gwneud hynny, drwy'r ffeil cyfathrebu, y Cylchlythyr Risg Glinigol a thrwy fforymau a chyfarfodydd staff.</p> <p>O 2 Rhagfyr 2019, nid oes bydwraig yn bresennol 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos yn Uned dan Arweiniad Bydwragedd Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cofnodi archwiliadau dyddiol o dymheredd yr oergell o ddydd Llun i ddydd Gwener ar ffurflen benodol. 	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod</p>	<p>Rhagfyr 2019</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	<ul style="list-style-type: none"> • Cadw'r oergell meddyginiaethau dan glo mewn ystafell dan glo na all y cleifion gael mynediad iddi. <p>Rheoli tymheredd meddyginiaethau a'r oergell meddyginiaethau yn unol â Pholisi Rheoli Meddyginiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Safonau Diogelwch Cleifion ar gyfer Uned dan Arweiniad Bydwagedd lle nad oes bydwraig ar ddyletswydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y bydwagedd cymunedol sy'n defnyddio'r Uned dan Arweiniad Bydwagedd i gofnodi tymheredd yr oergell ar ffurflen benodol. 	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod Gwasanaethau</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Sicrhau bod archwiliadau o gyffuriau a reolir yn cael eu cynnal yn unol â'r polisi bob amser.	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	<ul style="list-style-type: none"> Rhannu'r Polisi Rheoli Meddyginiaeth â'r holl staff bydwreigiaeth drwy negeseuon e-bost GIG Cymru. <p>Camau gweithredu a nodwyd.</p>	Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod	Cwblhawyd
	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Hysbysu pob aelod perthnasol o'r staff am bwysigrwydd cydymffurfio â'r polisi rheoli meddyginiaeth mewn perthynas ag archwilio cyffuriau a reolir.	Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod	Cwblhawyd
		Cyfathrebu drwy'r 'Ffeil Boeth' a'r Cylchlythyr Risg.	Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Rhannu'r Polisi Rheoli Meddyginiaeth a'r Polisi Gweithredu Safonol ar gyfer yr Uned dan Arweiniad Bydwragedd â phob aelod o'r staff bydwreigiaeth drwy negeseuon e-bost GIG Cymru.</p> <p>Cymerwyd y camau dilynol yn ymwneud â storio cyffuriau a reolir ar gyfer Uned dan Arweiniad Bydwragedd lle nad oes bydwaig ar ddyletswydd:</p> <p>-Mae'r Uned dan Arweiniad Bydwragedd yn uned annibynnol dan glo a oruchwylir gan deledu cylch cyfyng 24 awr y dydd.</p> <p>- Camau sydd ar</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>waith –</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mynediad cyfyngedig i'r Uned dan Arweiniad Bydwagedd <p>Caiff cyffuriau a reolir eu storio mewn ystafell dan glo a chwprdd meddyginiaethau dan glo yn unol â Pholisi Rheoli Meddyginiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Phroses Gweithredu Safonol yr Uned dan Arweiniad Bydwagedd.</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<ul style="list-style-type: none"> - Mae proses ar waith ar gyfer archwilio cyffuriau a reolir yn ddyddiol o ddydd Llun i ddydd Gwener. 	Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod	Cwblhawyd
		<ul style="list-style-type: none"> - Caiff allweddi'r cwpwrdd cyffuriau a reolir eu cadw mewn sêff allweddi digidol. 	Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod	Cwblhawyd
		Cynnal archwiliad sicrwydd misol er mwyn sicrhau bod gwaith craffu allanol yn cael ei wneud.	Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod	Cwblhawyd

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): **Julie Jenkins**

Swydd: **Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod**

Dyddiad: **10 Rhagfyr 2019 a 15 Ionawr 2020**

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: **Ysbyty Llwynhelyg**

Ward/adran: **Uned dan Arweiniad Bydwagedd**

Dyddiad arolygu: **3 – 4 Rhagfyr 2019**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion mewn man lle y gallant ei gweld yn hawdd, gan gynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Arddangos posteri gwybodaeth gan gynnwys posteri am roi'r gorau i smygu yn yr Uned dan Arweiniad Bydwagedd.	Pennaeth Bydwreigiaeth	9 Ionawr 2020 Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth	4.2 Gwybodaeth i	Cynnal archwiliad i feincnodi'r	Pennaeth	31 Mawrth

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ar gael yn ddwyieithog ym mhob rhan o'r uned.	gleifion	wybodaeth ddwyieithog sydd ar gael. Gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cyfieithu i ddarparu gwybodaeth ddwyieithog.	Bydwreigiaeth Pennaeth Bydwreigiaeth	2020 31 Mawrth 2020
Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried effaith trefniadau i drosglwyddo cleifion yn ddi-oed, gan gynnwys a yw'r cerbyd ambiwlans dynodedig yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn unol â'r cytundeb rhwng Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlan Cymru a'r bwrdd iechyd.	5.1 Mynediad amserol	Monitro drwy system gofnodi DATIX. Mae Proses Gweithredu Safonol weithredol ar waith sy'n amlinellu'r paramedrau ar gyfer trosglwyddo gofal cynenedigol, cyn genedigaeth, ac ôl-enedigol.	Pennaeth Bydwreigiaeth Pennaeth Bydwreigiaeth	9 Ionawr 2020 Cwblhawyd 9 Ionawr 2020 Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir rhannu adborth gan gleifion â'r staff er mwyn eu helpu i ddysgu a gwella'r gwasanaeth.	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	Rhannu straeon cleifion yng nghyfarfodydd staff misol yr Uned dan Arweiniad Bydwagedd, y Cylchlythyr Risg Mamolaeth, fforwm y Ward Esgor a chyfarfodydd y Gyfarwyddiaeth.	Pennaeth Bydwreigiaeth	9 Ionawr 2020 Cwblhawyd
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod drws y storfa sy'n cynnwys meddyginiaethau a reolir dan glo	2.6 Rheoli	O 2 Rhagfyr 2019, nid oes bydwaig yn bresennol 24 awr y dydd, saith diwrnod		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>yn barhaus er mwyn atal unrhyw fynediad anawdurdodedig.</p>	<p>Meddyginiaethau</p>	<p>yr wythnos yn Uned dan Arweiniad Bydwagedd Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg.</p> <p>Atgoffa'r staff am bwysigrwydd cydymffurfiaeth â'r polisi rheoli meddyginiaeth, a'r gofynion o ran gwneud hynny, drwy'r 'Ffeil Boeth' a'r Cylchlythyr Risg.</p> <p>Camau a roddwyd ar waith ar gyfer Uned dan Arweiniad Bydwagedd lle nad oes bydwraig ar ddyletswydd:</p> <p>Mae'r Uned dan Arweiniad Bydwagedd yn uned annibynnol dan glo sydd â goruchwyliaeth teledu cylch cyfyng 24 awr.</p> <p>Mynediad cyfyngedig i'r Uned dan Arweiniad Bydwagedd.</p> <p>Caiff cyffuriau a reolir eu storio mewn ystafell dan glo a chwprdd meddyginiaethau dan glo a chaiff yr</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>2 – 4 Rhagfyr 2019 Cwblhawyd</p> <p>2 Rhagfyr 2019 – Cwblhawyd</p> <p>2 Rhagfyr 2019 – Cwblhawyd</p> <p>2 Rhagfyr 2019 – Cwblhawyd</p> <p>2 Rhagfyr</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>allweddi eu cadw mewn sêff allweddi digidol yn unol â Pholisi Rheoli Meddyginiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Phroses Gweithredu Safonol yr Uned dan Arweiniad Bydwagedd.</p> <p>Mae proses ar waith ar gyfer archwilio cyffuriau a reolir yn ddyddiol o ddydd Llun i ddydd Gwener, a chofnodi'r archwiliadau hynny ar ffurflen benodol.</p> <p>Rhannu'r Polisi Rheoli Meddyginiaeth a'r Polisi Gweithredu Safonol ar gyfer yr Uned dan Arweiniad Bydwagedd â phob aelod o'r staff bydwreigiaeth drwy negeseuon e-bost GIG Cymru.</p> <p>Cynnal archwiliad sicrwydd misol er mwyn sicrhau bod gwaith craffu allanol yn cael ei wneud.</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>2019 – Cwblhawyd</p> <p>2 Rhagfyr 2019 – Cwblhawyd</p> <p>2 Rhagfyr 2019 – Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried diwylliant a dysgu mewn perthynas â digwyddiadau, gan gynnwys sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â'r staff mewn amgylchedd agored nad yw'n cosbi.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Caiff gwersi a ddysgwyd eu rhannu drwy'r Cylchlythyr Risg Glinigol, fforwm y Ward Esgor, trafodaethau pen bwrdd a digwyddiadau dysgu a gynhelir gyda'r tîm amlddisgyblaethol.	Pennaeth Bydwreigiaeth	2 Rhagfyr 2019 – Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd hwn ystyried effeithiolrwydd y cyfathrebu â'r staff, gan gynnwys ynghylch y newid yn y gwasanaeth a sut i fynd i'r afael â morâl y staff.	7.1 Y Gweithlu	Caiff arolwg staff y GIG ei ddsbarthu i bob aelod o'r staff ar 01/03/20 er mwyn casglu gwybodaeth am forâl y staff yn dilyn y newid sefydliadol.	Pennaeth Bydwreigiaeth	31 Mawrth 2020
Rhaid i'r bwrdd iechyd Sicrhau bod cynnwys ffolderi canllaw PROMPT yn cael ei deilwra'n benodol i'r gofal yn yr uned a bod hyfforddiant PROMPT yn y dyfodol yn berthnasol i'r gwasanaeth newydd.		Mae pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant PROMPT fel rhan annatod o'r hyfforddiant Gorfodol a Statudol bob blwyddyn.	Pennaeth Bydwreigiaeth	2 Rhagfyr 2019 – Cwblhawyd
		Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn treialu'r hyfforddiant PROMPT cymunedol, a ddechreuodd ym mis Ionawr 2020, ac mae'n berthnasol i fodel gofal cymunedol sy'n cynnwys cyfleusterau Uned dan Arweiniad Bydwreigedd.	Pennaeth Bydwreigiaeth	2 Ionawr 2020 – Cwblhawyd

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Julie Jenkins

Teitl swydd: Pennaeth Bydwreigiaeth

Dyddiad: 28 Ionawr 2020